

Yr A40 Llanddewi Felffre i Benblewin

YMCHWILIAD LLEOL CYHOEDDUS

www.A40lvp-publicinquiry.co.uk

YMCHWILIAD LLEOL CYHOEDDUS YNGLŶN Â

GORCHMYNION CYNLLUN, FFYRDD YMYL CYSYLLTIEDIG A PHRYNU GORFODOL CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN)

Nodyn o'r Cyfarfod Cyn-ymchwiliad a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2020 yn Neuadd Bentref Llanddewi Felffre

1. Cyflwyniadau a Materion Rhagarweiniol

Agorodd yr Arolygydd y cyfarfod cyn-ymchwiliad trwy esbonio mai ei ddiben oedd trafod y trefniadau i'w gwneud ar gyfer yr ymchwiliad lleol cyhoeddus sydd i ddod ynglŷn â Gorchmynion a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981. Y rhain yw'r Gorchmynion Cefnffyrdd, Ffyrdd Ymyl a Phrynu Gorfodol sy'n ymwneud â Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin. Mae tri Gorchmyn drafft wedi cael eu cyhoeddi i'w hystyried.

Cyflwynodd yr Arolygydd ei hun fel Aidan McCooey, sy'n gynllunydd tref siartredig ac Arolygydd gyda'r Arolygiaeth Gynllunio. Fe'i penodwyd gan Weinidogion Cymru i gynnal yr Ymchwiliad, ystyried y dystiolaeth a pharatoi adroddiad annibynnol gydag argymhellion ynglŷn â'r Gorchmynion. Mae'r Ymchwiliad yn symud ymlaen yn unol â Rheolau Priffyrdd (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1994 a Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010.

Bydd yr Ymchwiliad yn dechrau ar 10 Mawrth 2020 yn Neuadd Bentref Llanddewi Felffre a disgwylir iddo bara am 3 wythnos. Esboniodd mai diben y cyfarfod hwn yw trafod y trefniadau ar gyfer yr Ymchwiliad ac nid trafod rhinweddau'r cynnig, a fydd yn cael eu harchwilio yn ystod yr Ymchwiliad ei hun.

Cyflwynodd yr Arolygydd Swyddog y Rhaglen hefyd, sef Tracey Smith. Gellir cysylltu â hi trwy e-bost ar po.traceysmith@outlook.com neu dros y ffôn 07891 412761. Bydd yn gweithio i drefnu rhaglen yr Ymchwiliad a sicrhau bod yr Ymchwiliad yn symud ymlaen mewn modd didrafferth ac amserol. Swyddog y Rhaglen yw'r pwynt cyswllt ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn yr Ymchwiliad a bydd yn cysylltu â'r Arolygydd, fel y bo'r angen, ynglŷn ag unrhyw faterion gweithdrefnol a allai godi. Fodd bynnag, ni fydd Swyddog y Rhaglen yn cyfrannu mewn unrhyw ffordd at ystyried y dystiolaeth nac at gynnwys yr adroddiad.

Mae gwefan wedi cael ei sefydlu ar gyfer yr Ymchwiliad, sef www.A40lvp-publicinquiry.co.uk, y dylai cyfranogwyr gyfeirio ati gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddogfennau, cynnydd yr Ymchwiliad, yr amserlen ac yn y blaen.

2. Y Gorchmynion Drafft a Chwmpas yr Ymchwiliad

Dyma'r gorchmynion drafft a wnaed gan Weinidogion Cymru:

Gorchmyn Llinell – Gorchmyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Llanddewi Felffre i Benblewin a Thynnu Statws Cefnffordd)

Gorchymyn Ffyrdd Ymyl – Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Llanddewi Felffre i Benblewin) (Ffyrdd Ymyl)

Gorchymyn Prynu Gorfodol – Gorchymyn Prynu Gorfodol Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Llanddewi Felffre i Benblewin)

Dywedodd yr Arolygydd mai diben y Gorchymynion Ffyrdd a geisir yw rhoi pwerau i: adeiladu rhannau newydd o gefnffordd er mwyn gwella'r A40 sy'n osgoi Llanddewi Felffre a gwella'r ffordd cyn belled â Phenblewin, ynghyd â gwaith cysylltiedig i adeiladu ffyrdd cysylltu a ffyrdd ymyl; tynnu statws cefnffordd oddi ar hydoedd presennol o'r gefnffordd a ffyrdd ymuno/ymadael; a chau hydoedd o gefnffordd sydd wedi'u disodli a chau, gwella, newid neu greu ffyrdd, hawliau mynediad a mynedfeydd preifat eraill.

Diben y Gorchymyn Prynu Gorfodol arfaethedig yw rhoi'r pŵer i gaffael y tir a'r hawliau sy'n ofynnol i adeiladu a chynnal a chadw'r cynllun ffyrdd.

Nid oes angen caniatâd cynllunio er mwyn i Weinidogion Cymru gyflawni'r Cynllun; er hynny, mae angen rhoi sylw priodol i ystyriaethau polisi cenedlaethol a lleol. Mae datblygu'r Cynllun wedi cynnwys ymgynghori ag awdurdodau cynllunio lleol, cyrff statudol, rhanddeiliaid eraill perthnasol ac unigolion yr effeithir arnynt. Mae'r Cynllun arfaethedig wedi bod yn destun Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd a chynhyrwyd Datganiad Amgylcheddol ynglŷn â'r Cynllun. Mae Datganiad i Lywio Asesiad Priodol o effeithiau posibl ar yr amryw Ardaloedd Cadwraeth arbennig o fewn 10km o'r Cynllun wedi cael ei ddarparu hefyd.

Amlinellodd yr Arolygydd y materion na cheir eu trafod mewn Ymchwiliadau Lleol, ac esboniodd pam. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Rhinweddau Polisi'r Llywodraeth, gan gynnwys rhagolygon cenedlaethol, dosbarthiad cyllid y Llywodraeth, safonau dylunio cenedlaethol ac ati, sydd oll yn faterion i Seneddau Cenedlaethol ac nid ymchwiliadau lleol ynglŷn â chynlluniau lleol unigol.
- Materion Cyfreithiol. Os bydd unrhyw rai'n codi, rhaid iddynt gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig. Byddent yn cael eu hatodi i Adroddiad yr Arolygydd.
- Materion lawndal, nad ydynt yn faterion i ymchwiliadau lleol ond sydd i'w cytuno rhwng y rhai sy'n cynrychioli'r partion neu i'w hatgyfeirio i'r Tribiwnlys Tiroedd os na cheir cytundeb.

3. Y Weithdrefn yn yr Ymchwiliad

Yn gyntaf, bydd yr Ymchwiliad yn clywed yr achos o blaid y Cynllun, fel y'i cyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd yr Arolygydd ei fod yn disgwyl i'r dystiolaeth a gyflwynir o blaid y Cynllun a'r Gorchymynion ymdrin â materion fel:

- Yr angen am y Cynllun a'i nodau;
- Manylion y dyluniad arfaethedig, y dewisiadau amgen a ystyriwyd a'r sail resymegol ar gyfer yr opsiwn a ffefrir;
- Cysondeb ag amcanion polisi;
- Y broses adeiladu, yr effeithiau ar berchenogion tir/eiddo ac eraill yr effeithir arnynt, a'r mesurau i reoli a lliniaru effeithiau niweidiol;
- Unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol a fydd yn deillio o'r cynllun wedi'i gwblhau a'r mesurau a gynigir i'w lleihau i'r eithaf;

- Y tebygolrwydd y bydd y Cynllun yn symud ymlaen, gan gynnwys cyllid, os cadarnheir y Gorchmynion;
- Tystiolaeth yn ymwneud â'r materion hynny a godwyd fel gwrthwynebiadau i'r Cynllun.

Ar ôl i'r achos o blaid y Gorchmynion gael ei gyflwyno, bydd yr Ymchwiliad yn clywed gan gefnogwyr y Cynllun ac, yn olaf, gan wrthwynebwyr sy'n dymuno ymddangos yn yr Ymchwiliad. Bydd ymateb yr hyrwyddwr i'r materion a godir mewn gwrthwynebiadau yn cael ei glywed hefyd, os bydd angen. Bydd pob parti yn cael cyfle i groesholi'r llall; cadarnhaodd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru y bydd ei thystion ar gael i ailymddangos at y diben hwn, lle y bo'r angen.

4. Cymryd rhan yn yr Ymchwiliad

Ar ran Llywodraeth Cymru, cadarnhaodd Mr Anthony Vines, Cwnsler, y bydd yn galw'r canlynol fel dystion:

Mark Dixon (Llywodraeth Cymru) – Prif Dyst ar ran yr Hyrwyddwr

Andrew Bamforth (Arup) – Tyst ar gyfer Traffig ac Economeg

Tom Edwards (Arup) – Tyst Peirianeg

Andrew Sumner (RML) – Tyst Amgylcheddol

Pete Wells (Arup) – Tyst Ecoleg

David Hiller (Arup) – Tyst Sŵn

John Davies (Hunangyflogedig) – Tyst Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy

Rhoddodd Mr Vines amcangyfrif cychwynnol o faint o amser y bydd ei angen i gyflwyno'r achos o blaid Llywodraeth Cymru.

Ni fynegodd unrhyw gefnogwyr fwriad i ymddangos yn yr Ymchwiliad yn y cyfarfod.

Y gwrthwynebwyr a ddymunodd ymddangos oedd:

Eleanor Clegg ar ran Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro

Lloyd James ar ran Mr Rayner Peett a Mrs Carol Peett

Bydd Swyddog y Rhaglen yn anfon llythyr at bawb a ymatebodd i gyhoeddi'r Gorchmynion drafft, a'r rhai a fynychodd y cyfarfod hwn, yn gofyn iddynt gadarnhau a ydynt eisiau ymddangos ac i ddarparu manylion eraill perthnasol fel y gellir llunio rhaglen cyn i'r Ymchwiliad ddechrau. Cadarnhaodd yr Arolygydd y caiff unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan siarad yn yr Ymchwiliad, yn amodol ar gydymffurfio â Rheolau'r Ymchwiliad a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y nodyn hwn.

Gofynnir i bawb sy'n dymuno ymddangos roi cadarnhad o hyn i Swyddog y Rhaglen yn ddi-oed, os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, fel y gellir llunio rhaglen yr Ymchwiliad.

Cadarnhawyd nad oedd unrhyw barti wedi awgrymu unrhyw Lwybrau Amgen ar gyfer y Cynllun. Os bydd unrhyw un yn dymuno gwneud hynny, dylid cyflwyno manylion i Lywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl a, sut bynnag, erbyn 14 diwrnod cyn yr Ymchwiliad, fel y gellir gweithio'r Dewis Amgen a rhoi cyhoeddusrwydd iddo yn unol â Rheolau'r Ymchwiliad.

5. Gweithdrefnau'r Ymchwiliad

Disgrifiodd yr Arolygydd y weithdrefn i'w dilyn yn yr Ymchwiliad, a amlinellir yn y llyfryn gwybodaeth (mae dolen i'r llyfryn hwn ar y wefan).

Dylai unrhyw geisiadau am eglurhad ynghylch Proflenni Tystiolaeth tystion Llywodraeth Cymru gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig wythnos cyn yr Ymchwiliad (erbyn 3 Mawrth), a dylai Llywodraeth Cymru ymateb yn ysgrifenedig erbyn dechrau'r Ymchwiliad (os oes modd).

Bydd achos cyfan Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno yn gyntaf yn yr Ymchwiliad. Mae hynny'n fuddiol oherwydd bydd gwrthwynebwyr wedi clywed tystiolaeth lawn tîm Llywodraeth Cymru a chael dealltwriaeth ohoni i'w hystyried o flaen llaw cyn iddynt roi tystiolaeth.

Bydd cefnogwyr yn ymddangos nesaf, a chaiff gwrthwynebwyr ofyn cwestiynau iddynt os ydynt yn dymuno.

Bydd gwrthwynebwyr yn cael cyfle i groesholi tystion Llywodraeth Cymru (gofyn cwestiynau iddynt) a byddant yn cyflwyno eu hachosion eu hunain. Caiff Cwnsler Llywodraeth Cymru ofyn cwestiynau i'r gwrthwynebwyr, yn eu tro. Bydd cyfle hefyd i ailadrodd y broses hon ar gyfer unrhyw wrthbrofion a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru wrth ymateb i'r gwrthwynebiadau a glywir. Neu gall y gwrthwynebwr ddewis cyfuno hyn yn un sesiwn gan ystyried prif dystiolaeth Llywodraeth Cymru a'i gwrthbrawf gyda'i gilydd.

Bydd yr holl bartïon yn cael cyfle i grynhoi eu hachos mewn datganiad terfynol neu araith derfynol a bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyflwyniadau cloi.

Bydd yr Ymchwiliad yn cael ei gynnal yn unol ag egwyddorion tegwch, didueddrwydd a bod yn agored.

6. Yr Amserlen ar gyfer Cyflwyno Tystiolaeth a'r Ymchwiliad

Mae'r Rheolau Ymchwiliad Cyhoeddus yn gosod rhai gofynion ar y partïon i'r Ymchwiliad i gyflwyno unrhyw dystiolaeth sydd i'w rhoi yn yr Ymchwiliad yn ysgrifenedig ymhell cyn iddo ddechrau. Mae hyn yn galluogi pawb sy'n gysylltiedig i gael syniad clir o'r achosion y mae'r holl bartïon yn bwriadu eu cyflwyno.

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai ei phrif Ddatganiad Achos yn cael ei gyflwyno erbyn 4 Chwefror 2020. Bydd hyn yn cynorthwyo'r partïon i baratoi eu cyflwyniadau i'r Ymchwiliad.

Dylai'r holl broflenni tystiolaeth a datganiadau gael eu cyflwyno i Swyddog y Rhaglen erbyn dydd Mercher 12 Chwefror.

Dylai proflenni gwrthbrawf Llywodraeth Cymru gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl a dim hwyrach nag wythnos cyn y bwriedir i'r gwrthwynebiad gael ei glywed.

Pan fydd proflenni/datganiadau yn cynnwys mwy na 1500 o eiriau, mae'n rhaid cyflwyno crynodeb ohonynt nad yw'n fwy na 1500 o eiriau. Mewn achosion o'r fath, bydd y crynodeb yn cael ei ddarllen yn yr Ymchwiliad yn hytrach na'r broflen lawn (ond bydd unrhyw groesholi yn cael ei seilio ar y broflen lawn).

Bydd yr Ymchwiliad yn agor am 10:00 ar 10 Mawrth 2020 yn Neuadd y Pentref a disgwylir iddo bara am 3 wythnos. Bydd yn eistedd o ddydd Mawrth i ddydd Gwener bob wythnos o 10am tan oddeutu 5pm (gan orffen yn gynharach ar ddydd Gwener).

Bydd ystafell yr Ymchwiliad yn cynnwys system annerch y cyhoedd, cyfleusterau arddangos gweledol a llyfrgell o ddogfennau'r Ymchwiliad. Darperir ystafelloedd ochr i'r partion gynnal trafodaethau preifat wrth i'r Ymchwiliad fynd rhagddo.

7. Dogfennau

Rhoddir rhif i'r holl ddogfennau a gyflwynir i'r Ymchwiliad ac fe'u hychwanegir at y wefan a'r llyfrgell. Bydd unrhyw ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau gan Lywodraeth Cymru yn cael eu trin yn yr un modd. Byddem yn gwerthfawrogi cael y cyflwyniadau agoriadol a therfynol yn ysgrifenedig (ac yn electronig) i'm cynorthwyo i wneud nodiadau ac adrodd ar dystiolaeth. Bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at y wefan a'r llyfrgell hefyd.

8. Y Profion ar gyfer Pob Gorchymyn

Amlinellodd yr Arolygydd y profion ar gyfer y tri Gorchymyn drafft y mae'n rhaid eu bodloni.

Y Gorchymyn Llinell a Thynnu Statws Cefnffordd

Mae'n rhaid iddo fod yn hwylus er budd y cyhoedd h.y. bod angen profedig amdano yn awr – o ystyried yr effaith ar amaethyddiaeth, ei berthynas â pholisi lleol a chenedlaethol a'i gysylltiad ag anghenion ymgymerydd statudol. Mae'n rhaid i'r gorchymyn tynnu statws cefnffordd gydweddu â'r gorchymyn llinell ac mae'n rhaid i safbwyntiau'r Cyngor Sir arno fod yn hysbys.

Y Gorchymyn Prynu Gorfodol

Bydd angen i'r Arolygydd fod yn argyhoeddedig o achos cymhellol o blaid prynu tir yn orfodol er budd y cyhoedd, ac nad oes unrhyw rwystrau rhag datblygu'r cynllun, y byddai'r adnoddau angenrheidiol ar gael o fewn graddfa amser resymol a bod gan Lywodraeth Cymru syniad clir o'r hyn y mae arni angen y tir ar ei gyfer.

Y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl

Bydd angen i'r Arolygydd fod yn fodlon bod llwybrau amgen yn lle'r priffyrdd sydd i'w cau yn rhesymol gyfleus (rhai sydd naill ai eisoes yn bodoli neu rai arfaethedig), a lle y cynigir cau Mynedfa Breifat, bod un arall rhesymol gyfleus ar gael neu y byddai'n cael ei darparu, pe byddai angen.

9. Materion Eraill

Os yw unrhyw barti'n dymuno awgrymu y dylai'r Arolygydd argymhell y dylai unrhyw Orchymyn gael ei gadarnhau ar ffurf wedi'i haddasu, dylai hefyd gynhyrchu'n ysgrifenedig y diwygiadau drafftio manwl y mae'n eu ceisio i'r holl Orchymynion neu unrhyw un o'r Gorchymynion, a gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn yr Ymchwiliad.

Gallai Llywodraeth Cymru gynnig addasiadau yn ystod yr Ymchwiliad – mae'n hanfodol bod y cyfryw Addasiadau a gynigir yn benodol yn ddaearyddol ac yn dechnegol.

Byddai'n ddefnyddiol iawn pe byddai gwrthwynebwyr a chefnogwyr yr amryw Orchmynion yn egluro yn eu cyflwyniadau i'r Ymchwiliad ba Orchmynion yn union y maent yn eu gwrthwynebu neu'n eu cefnogi.

Dywedodd yr Arolygydd fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Choed Cadw sawl pryder ynglŷn â'r cynnig a'r wybodaeth amgylcheddol. Bydd angen i'r Ymchwiliad gael ei hysbysu'n llawn am gynnydd y materion hyn a chanlyniadau trafodaethau. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth amgylcheddol ac ecolegol yn gywir ar gyfer adroddiad yr Arolygydd.

Cyfeiriodd yr Arolygydd at wrthwynebiadau gan Ymgymrwyr Statudol a'r angen i gael sicrwydd ysgrifenedig bod gwrthwynebiadau wedi cael eu tynnu'n ôl.

Eglurodd yr Arolygydd ei fod wedi ymweld ag ardal y Cynllun yn ddi-gwmni ac y byddai'n parhau i gynnal ymweliadau safle di-gwmni wrth i'r Ymchwiliad symud ymlaen. Bwriedir cynnal ymweliad safle â lleoliadau priodol tua diwedd yr Ymchwiliad. Bydd yr Arolygydd yng nghwmni cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a'r gwrthwynebwyr.

Gan na chodwyd unrhyw faterion eraill, daeth y cyfarfod i ben yn sgil atgoffa am faterion a dyddiadau allweddol, fel a ganlyn.

Pwyntiau i'w Cofio

1. Ar ddechrau'r Ymchwiliad, bydd angen i'r hyrwyddwyr gadarnhau y cydymffurfiwyd â'r holl faterion ffurfiol statudol.
2. Y Terfyn Amser targed ar gyfer profleuni tystiolaeth yw **12 Chwefror 2020**. Dylai'r rhain gael eu hanfon at Swyddog y Rhaglen a fydd yn eu dosbarthu i dîm Llywodraeth Cymru ac i mi.
3. Dylai unrhyw ddewisiadau amgen a awgrymir ar gyfer y cynllun gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ddi-oed, ac erbyn y Terfyn Amser **25 Chwefror**. Gall cyflwyniadau hwyr achosi problemau difrifol, felly ceisiwch osgoi hynny.
4. Dylid cyflwyno ceisiadau am eglurhad gan dystion Llywodraeth Cymru erbyn **3 Mawrth** a dylai Llywodraeth Cymru ymateb erbyn dechrau'r Ymchwiliad (os oes modd).